Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad

**Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn**

**Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam**

**Ffordd Parc y Gelli**
**Wrecsam**
**LL12 7AA**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Kevern Kerswell | Cynrychiolydd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Hydref 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r bartneriaeth o unrhyw weithgarwch dilynol pellach. Bydd yr arolygydd cyswllt ar gyfer Coleg Iâl yn cynnal cyswllt â'r bartneriaeth i gefnogi datblygiadau yn y dyfodol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Datblygu dadansoddiad clir o'r hyn y mae dysgwyr a'r gymuned ei angen o ddysgu oedolion yn y gymuned

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r hyn y mae dysgwyr yn y gymuned ei angen o ddysgu oedolion yn y gymuned (DOG). Mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynnal gwaith ymgynghori eang gyda dysgwyr ac oedolion presennol nad oeddent yn cymryd rhan mewn dysgu. O ganlyniad, mae gan y bartneriaeth ddadansoddiad strategol clir o anghenion dysgwyr a'r gymuned.

Cynhaliodd partneriaid ystod o weithgareddau ymgynghori gyda thua 250 o oedolion nad oeddent yn cymryd rhan mewn dysgu. Cynhaliodd staff ddigwyddiadau yn holl lyfrgelloedd Wrecsam, yn swyddfa Gyrfa Cymru yn Wrecsam, ac mewn lleoliadau cymunedol. Yn ychwanegol, cynhaliodd staff yng Ngholeg Iâl arolwg o gyfranogwyr oedd yn mynychu digwyddiad amrywiaeth gymunedol.

Trefnwyd 36 o grwpiau ffocws yn cynnwys 250 o ddysgwyr eraill sy'n oedolion yn y gymuned hefyd gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr Coleg Harlech (Gogledd Cymru), Coleg Iâl, a darpariaeth Dysgu Teuluol Wrecsam. Rhoddodd Gyrfa Cymru wybodaeth gyfoes am y farchnad lafur hefyd i helpu'r bartneriaeth i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r math o ddysgu y mae'n ei gynnig.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da i gryfhau ei threfniadau i gynnwys dysgwyr mewn datblygu'r cwricwlwm a chyflwyno'r ddarpariaeth.

O ganlyniad, mae'r bartneriaeth wedi gallu nodi anghenion dysgu oedolion yn ardal Wrecsam a llunio cynllun cwricwlwm yn seiliedig ar yr anghenion hyn. Mae'r cynllun cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned hefyd.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r wybodaeth o'r dadansoddiad o anghenion yn dda i roi dysgu yn ei gyd-destun ac amrywio'r ddarpariaeth y mae'n ei chynnig i wahanol grwpiau o ddysgwyr. Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o offeryn cynllunio i amlinellu a chytuno ar y cwricwlwm y mae'n ei gynnig i ddysgwyr. Mae'r offeryn yn

llwyfan da i bartneriaid wneud yn siŵr eu bod yn targedu'r cwricwlwm yn briodol, ei fod yn ymgysylltu â dysgwyr newydd ac yn cynnig dilyniant i ddysgwyr, ar yr un lefel neu i lefelau dysgu uwch.

**Argymhelliad 2: Gwella'r defnydd o ddata ar y cyd wrth gynllunio, monitro a datblygu ansawdd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno gweithdrefn effeithiol ar gyfer casglu data. Mae'n casglu data gan bob darparwr ar daenlen ddefnyddiol sy'n galluogi'r bartneriaeth i weld yr holl ddata ar yr un pryd. Mae Grŵp Ansawdd y Cwricwlwm yn adolygu ac yn dadansoddi'r data. Mae'r grŵp hwn yn adrodd wrth y grŵp rheoli Dysgu Oedolion yn y Gymuned trwy gyflwyniadau rheolaidd. Mae'r grŵp rheoli Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn effeithiol o ran dwyn Grŵp Ansawdd y Cwricwlwm i gyfrif am goladu a defnyddio data.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r data yn effeithiol i arfarnu'r ddarpariaeth bresennol a gwneud yn siŵr ei bod yn bodloni anghenion dysgwyr. Er enghraifft, mae'n dadansoddi tueddiadau dysgwyr fel y gymhareb gwrywod i fenywod ar gyrsiau. Yn ogystal, mae'r bartneriaeth yn archwilio data cod post dysgwyr i wneud yn siŵr ei bod yn recriwtio dysgwyr o ardaloedd priodol ac yn monitro pa mor bell y mae dysgwyr yn teithio i gyrsiau amrywiol mewn gwahanol leoliadau.

Mae Grŵp Ansawdd y Cwricwlwm yn monitro'r holl raglenni dysgu o gofrestru i ennill cymwysterau a deilliannau dysgu llwyddiannus. Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth fwy trylwyr o gyflawniad dysgwyr erbyn hyn. Mae'n defnyddio data yn briodol i fesur deilliannau yn erbyn darparwyr eraill ac yn erbyn targedau'r bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn gosod targedau ar gyfer eleni i ddeilliannau dysgwyr fod yn debyg i ddarparwyr eraill. Mae'r bartneriaeth yn awr yn bwriadu gosod targedau mwy heriol i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn cyflawni hyd eithaf ei allu.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio data yn effeithiol i wneud yn siŵr bod cyrsiau a chynigion newydd ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol yn berthnasol i anghenion dysgu yn y sir; a'u bod yn cyd-fynd â nodau strategol y bartneriaeth. Fodd bynnag, mae data'r bartneriaeth sydd wedi'i wirio ar gael ar gyfer 2010/11 yn unig. O ganlyniad, ni all y bartneriaeth arfarnu tueddiadau mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr a dangos pa mor dda y mae'n gwella safonau ar gyfer dysgwyr.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod y cyngor yn datblygu mecanwaith comisiynu cynhwysol i sicrhau bod darpariaeth ddysgu yn bodloni anghenion dysgwyr a chymunedau yn y ffordd orau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae’r bartneriaeth wedi gweithio’n dda i ddatblygu a gweithredu fframwaith comisiynu. Mae’r bartneriaeth yn defnyddio’r fframwaith yn dda i roi ffocws o’r newydd ar ddefnyddio’r grant dysgu cymunedol i gyflwyno darpariaeth yn y gymuned. Mae’r bartneriaeth wedi rhoi trefniadau da ar waith i fonitro’r defnydd o’r grant a gwella atebolrwydd.

O ganlyniad, gall y bartneriaeth wneud yn siŵr ei bod yn cyflwyno mwy o ddarpariaeth mewn lleoliadau cymunedol a bod y cwricwlwm yn mynd i’r afael ag anghenion dysgwyr sy’n oedolion yn Wrecsam.

Mae’r fframwaith comisiynu eisoes wedi cael effaith ar ystod y cyrsiau sydd ar gael ac wedi denu dysgwyr newydd i’r ddarpariaeth. Mae’r bartneriaeth wedi cyflwyno 68 o gyrsiau ychwanegol, sy’n cynnwys 460 o ddysgwyr o Ionawr 2013.

Yn ogystal, mae’r bartneriaeth wedi mabwysiadu set o safonau ansawdd a diogelu gofynnol sy’n gyrru’r fframwaith comisiynu. Mae’r bartneriaeth yn defnyddio’r safonau hyn i ddiffinio gofynion sicrhau ansawdd gofynnol yr holl ddarparwyr yn Wrecsam, i amlinellu trefniadau cydweithredol yn glir a hwyluso cydymffurfio gweithredol da, a chyflawni’r deilliannau gorau posibl ar gyfer oedolion yn Wrecsam. Mae’r safonau yn rhagofyniad ar gyfer cyflwyno darpariaeth ac ar gyfer gwneud newidiadau parhaus i’r ddarpariaeth. Mae’r safonau’n darparu gwaelodlin ar gyfer model sicrhau ansawdd ar y cyd.

Mae’r fframwaith comisiynu wedi nodi ac ysgogi ystod o adnoddau ychwanegol (ariannol a ffisegol) i DOG. Mae hyn yn golygu y gall y bartneriaeth wneud defnydd gwell o ystod ehangach o adnoddau ar gyfer dysgu oedolion.

**Argymhelliad 4: Datblygu dull cyffredin, ar y cyd o sicrhau ansawdd ar draws y bartneriaeth**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae grŵp ansawdd cwricwlwm y bartneriaeth yn gweithio’n dda o fewn perthynas agored a gonest.

Mae’r bartneriaeth wedi llunio Adroddiad Hunanasesu defnyddiol sy’n asesiad gonest a phriodol o waith y bartneriaeth. Mae’r Adroddiad Hunanasesu yn dangos cynnydd clir yn y ffordd y mae’r bartneriaeth wedi datblygu dull ar y cyd o fonitro ansawdd.

Mae’r bartneriaeth wedi adolygu a diwygio strwythur y Cynllun Datblygu Ansawdd. Mae hon yn ddogfen weithio ddefnyddiol a manwl sy’n cynnwys targedau byr a mesuradwy penodol. Mae graddfeydd amser priodol ac mae’n nodi’n glir yr unigolyn sy’n gyfrifol am gwblhau pob cam. Mae grŵp ansawdd y cwricwlwm yn adolygu’r cynllun datblygu ansawdd yn barhaus. Mae’n olrhain cynnydd trwy raddfa ddefnyddiol o ganran tuag at gwblhau. Nid yw rhai camau o fewn y cynllun yn canolbwyntio ar y modd y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

Mae gan ddarparwyr o fewn y bartneriaeth ddisgwyliadau uchel o'i gilydd erbyn hyn ac mae disgwyliad effeithiol o atebolrwydd a her.

Mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno cytundebau lefel gwasanaeth (CLG) i reoli gwaith gyda darparwyr trydydd parti a chynnal ansawdd. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn defnyddio'r CLG yn effeithiol gyda lleoliad lleol, y mae nifer o ddefnyddwyr yn ei fynychu, i osod targedau ac atebolrwydd penodol.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu ymhellach ei harfer bresennol o arsylwi ar draws darparwyr. Mae hon yn broses drylwyr ac effeithiol. Mae'r bartneriaeth wedi cynllunio'r broses arsylwi yn dda i dynnu sylw at themâu allweddol y bartneriaeth. Er enghraifft, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r holl farnau yn y broses arsylwi yn canolbwyntio'n briodol ar effaith y ddarpariaeth ar y dysgwyr. Mae'r cwricwlwm a'r grŵp ansawdd yn dadansoddi'r ffurflenni arsylwi ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff. Mae proses drylwyr ar gyfer safoni'r ffurflenni arsylwi sy'n cynnwys archwiliad gwrthrychol gan ymgynghorydd ansawdd allanol. Mae'r proffil barnau ar gyfer addysgu a dysgu ar draws y bartneriaeth wedi gwella.

**Argymhelliad 5: Cwblhau camau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny nad aethpwyd i'r afael â nhw yn llawn o'r arolygiad diwethaf, yn enwedig y rhai ar gyfer addysgu, asesu dysgu ac ar gyfer diogelu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r holl argymhellion o arolygiad 2005. Mae'r bartneriaeth wedi mynd i'r afael â llawer o'r argymhellion hyn trwy wella dadansoddi anghenion a chynllunio cwricwlwm ar y cyd. Mae'r gwelliannau a wnaeth y bartneriaeth i'w threfniadau ar gyfer defnyddio data ar y cyd a sicrhau ansawdd wedi mynd i'r afael â materion a nodwyd yn 2005 hefyd.

Mae'r bartneriaeth wedi mynd i'r afael ag argymhellion eraill yn briodol hefyd. Mae'n cynnig cyfleoedd gwell i ddysgwyr addysg sylfaenol i oedolion ymestyn eu dysgu. Mae darpariaeth SSIE yn cynnig ystod addas o gymwysterau ar gyfer dysgwyr erbyn hyn. Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ei threfniadau i wella addysgu trwy hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid a thrwy archwilio'r modd y mae tiwtoriaid yn cynllunio dysgu. Mae hyn yn cynnwys awdurdodi cynlluniau gwaith.

Mae'r bartneriaeth wedi mynd i'r afael â'r modd y mae'n helpu dysgwyr i gofnodi eu cynnydd a myfyrio ar eu cyflawniadau trwy ganolbwyntio ar ddefnydd ac ansawdd cynlluniau dysgu unigol trwy arsylwadau o addysgu a dysgu, safoni cynnwys a thrwy annog dysgwyr a thiwtoriaid i wneud defnydd gwell o gynlluniau gweithredu tymor byr. Fodd bynnag, mae rhai materion yn weddill o ran defnyddio targedau SMART mewn cynlluniau dysgu unigol (CDUau) mewn addysg sylfaenol i oedolion.

Mae canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru wedi gweithio'n dda gyda'r bartneriaeth i fynd i'r afael â'r argymhellion ynglŷn â darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn Wrecsam.

**Sylwadau Terfynol**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi gwella trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn Wrecsam.

Mae Bwrdd Partneriaeth Ddysgu Wrecsam, sy'n cynnwys uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol, sefydliadau addysg bellach yn yr ardal, sefydliadau addysg uwch, ac ysgolion, yn darparu swyddogaeth lywodraethu a chraffu ar gyfer y grŵp rheoli dysgu oedolion yn y gymuned ochr yn ochr â'r bartneriaeth 14-19 a'r consortiwm dysgu yn y gwaith. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ddysgu yn gallu elwa'n well ar gyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i gymryd rhan mewn dysgu ar draws lleoliadau.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ddysgu yn gyfrifol am awdurdodi gwaith y grŵp rheoli dysgu oedolion yn y gymuned ac mae wedi cefnogi'r grŵp yn dda i wneud newidiadau pwysig i'r modd y mae'n cyflwyno dysgu i oedolion.

Mae'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned wedi gwella ei phrosesau ar gyfer cynllunio a rheoli strategol. Mae gan bartneriaid rolau a chyfrifoldebau, blaenoriaethau, nodau ac amcanion strategol cytûn. Mae hyn wedi gwella cydweithio rhwng partneriaid ac yn galluogi'r bartneriaeth i weddu'r ddarpariaeth i anghenion dysgwyr. Mae grŵp cwricwlwm ac ansawdd yn rheoli prosesau ar gyfer dadansoddi anghenion, cynllunio'r cwricwlwm a sicrhau ansawdd yn effeithiol.

Yn bwysig, mae'r coleg a'r awdurdod lleol wedi gwella trefniadau ar gyfer rheolaeth weithredol y bartneriaeth. Mae'r coleg wedi secondio aelod o staff i arwain ar wella cynllunio'r cwricwlwm a sicrhau ansawdd ac uwch reolwr i gadeirio'r grŵp rheoli dysgu oedolion yn y gymuned.

Yn ystod yr ymweliad monitro, trafododd arolygwyr ystod o gamau nesaf gyda'r bartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gosod targedau i wneud yn siŵr bod perfformiad ymhlith y gorau yng Nghymru, ymestyn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysgu a dysgu a gwneud yn siŵr bod athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o CDUau yn yr holl feysydd rhaglen. Yn ogystal, trafododd arolygwyr pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn gweddu i ddarpariaeth arall yr awdurdod lleol, fel Teuluoedd yn Gyntaf a dysgu yn y gwaith.

Mae'r gwaith a wnaeth y bartneriaeth i ddatblygu fframwaith comisiynu a dadansoddi anghenion a chynllunio'r cwricwlwm yn cynrychioli arfer orau yn y sector.